Manon Antoniazzi
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

22 Medi 2020

**Craffu ar gyfrifon ac adroddiadau blynyddol**

Annwyl Manon,

Hoffwn ailadrodd fy niolch i chi a'r tystion eraill am roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 21 Medi 2020 ar adeg hynod brysur a heriol i Gomisiwn y Senedd.

Fel y cytunwyd yn ystod y cyfarfod, byddwn yn ddiolchgar pe gallech wneud y canlynol:

1. cadarnhau y byddwch yn anfon at y Pwyllgor hwn fersiynau diweddaraf yr adroddiadau ariannol rydych yn bwriadu eu hanfon at y Pwyllgor Cyllid sy'n amlinellu effaith pandemig COVID-19 ar gyllideb Comisiwn y Senedd;
2. cadarnhau'r dyddiad y bydd y cytundeb ar gyfer gwasanaethau cyngor cyfreithiol allanol yn dod i ben ar ôl i'r Prif Gynghorwr Cyfreithiol adael dan y cynllun diswyddo gwirfoddol yn 2019, a'r broses ar gyfer adolygu trefniant o'r fath;
3. cadarnhau pryd rydych yn disgwyl i ganlyniadau'r arolwg staff blynyddol gan Gomisiwn y Senedd gael eu cyhoeddi;
4. darparu manylion am y defnydd a wneir o'r unedau aerdymheru ar ystâd y Senedd ac unrhyw waith cynnal a chadw i'r ffenestri i alluogi iddynt gael eu hagor ar gyfer awyru naturiol yng nghyd-destun COVID-19;
5. manylion am effaith COVID-19 ar y dŵr a ddefnyddir ar ystâd y Senedd, ac a yw'r gwasanaethau glanhau'n defnyddio dŵr llwyd neu ddŵr o'r prif gyflenwad.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddArchwilio@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAC@senedd.wales
0300 200 6565

Byddwn hefyd yn ddiolchgar pe gallech roi rhagor o fanylion am y materion a ganlyn a godwyd gan yr Aelodau yn ystod y drafodaeth breifat ar ôl y sesiwn dystiolaeth:

6. Pa gamau y mae Comisiwn y Senedd yn eu cymryd i sicrhau y caiff cyfran uwch o nwyddau a gwasanaethau ei chaffael gan gyflenwyr yng Nghymru? Yn benodol, beth yw'r dyddiadau a phrosesau allweddol sy'n gysylltiedig â'r broses dendro ar gyfer gwasanaethau arlwyo newydd?
7. Beth, yn benodol, y mae Comisiwn y Senedd yn ei wneud i wella amrywiaeth economaidd-gymdeithasol ei staff?
8. Beth, yn benodol, y mae Comisiwn y Senedd yn ei wneud i ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd y mae'n anodd eu cyrraedd, ac i hyrwyddo ei waith i'r bobl hyn?
9. Pa heriau y mae Comisiwn y Senedd wedi'u hwynebu wrth drafod y risgiau o ran seiberddiogelwch sy'n gysylltiedig â llwyfan Zoom ac sydd wedi cael cryn dipyn o sylw yn y cyfryngau, gan gydnabod bod Zoom bellach yn ffordd gyfarwydd a hygyrch o ymgysylltu â gwaith y Senedd i nifer o aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid?

Rydym yn bwriadu cwblhau adroddiad y Pwyllgor ar gyfrifon ac adroddiadau blynyddol Comisiwn y Senedd erbyn diwedd mis Hydref fan bellaf. Byddwn yn gwerthfawrogi'ch cymorth i'n helpu i gadw at y dyddiad hwn.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.